

## Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 82

### Key Language

Ymladd/ymládd

Jest

Hoff

### New Words

Trafferthu	to bother
Shafio	to shave
Clais	bruise
Ymladd	to fight
Twp	stupid
Pwyllo	to calm down
Cwrdd	to meet
Cyn-ŵr	ex-husband
Hunllef	nightmare
Llanast	mess
Dywediad	a saying
Dial	to take revenge
Ceiniog	penny
Crac	angry
Pwyllo	to calm down
Ffefryn	favourite
Ordro	to order
Fel arfer	usually
Yn briod	married
Dal dy ddŵr	hold your horses (lit: hold your water)
Go lew	not so good
Diweddaraf	latest
Pryd (o fwyd)	meal
Mynnu	to insist
Diflas	boring
Bradychu	to betray
Coelio	to believe
Diweddar	recent
Fan hyn	here
Cartref henoed	old people's home
Synnu	to be surprised
Dynes o'i hoed	a woman of her age

Jac's made a full recovery from his peptic ulcer and is ready to return home. But home is no longer the bachelor pad he shared with Brian and Arwyn - home is now Agnes's house.

*Jac - Wnes i erioed feddwl bod hyn yn mynd i ddigwydd, meddai fi.*

*Agnes - Ti a fi yn byw fan hyn gyda'n gilydd?*

*Jac - Ie. Mae o fel breuddwyd. Breuddwyd sydd wedi dod yn wir.*

*Agnes - O'r diwedd.*

*Jac - Ie. O'r diwedd...*

Chris felt paranoid about the fact that Jenny hadn't responded to his invitation to go for a drink with him. So when he sees her in the garage he decides to bring up the subject with her, but gets a rather unexpected response.

Chris - Yeah, well....I shouldn't have done what I did last week. I shouldn't have gone to the hospital. I shouldn't have asked you out. It wasn't on...  
Jenny - Oedd gen ti berffaith hawl i fy ngwadd i allan, ond...  
Chris - Let's drop it – yeah?  
Jenny - Beth oeddet ti wedi meddwl ei wneud?  
Chris - You asking me out now?  
Jenny - Dw i'n brysur yr wythnos yma. Dw i'n gweithio shiffts nos. Ond...yyyy...beth am wythnos nesa'?'  
Chris - Really?  
Jenny - Os wyt ti isio...

---

## Main Grammatical Points

Note the difference between the words ymladd – to fight and. Both words are spelt the same, but the stress is applied in different places to distinguish between them. Ymladd – to fight and ymládd – to be exhausted. Can you hear the difference in stress? If you find it difficult, remember that you can say 'cwffio' or 'paffio' which both mean 'to fight' and you can say 'dw i wedi blino'n lân' to say 'I'm exhausted'. 'Dw i wedi blino'n lân' – literally 'I'm clean tired'!

---

In Welsh we use a lot of English loan words as I'm sure you've noticed, but if you use English words, make sure you use them in the correct place. One of our favourites is the word 'just'. Let's look at the position of this word though when we slip it into a Welsh sentence – you'll see a very basic pattern.

Oeddwn i jest yn meddwl amdanat ti...  
I was just thinking about you...

Jest comes between the pronoun and the 'yn'.

Mae Jac jest wedi siarad gyda hi.  
Jac has just spoken to her.

Jest comes between the pronoun and 'wedi'.

O'n i jest ar fin mynd allan  
I was just about to go out.

Jest comes between the pronoun and 'ar fin' (about to).

Maen nhw jest ar y ffon.  
They're just on the phone.

Jest once again comes directly after the pronoun.

---

Recently we learnt the word hoff meaning favourite followed by a noun. For example:

Fy hoff le                      My favourite place

Dy hoff raglen            Your favourite programme  
Eu hoff fwyd            Their favourite food.

But if you want to say that something is your favourite without qualifying what that favourite thing is, you use the word 'ffefryn'.

Beth yw dy hoff liw?  
What's your favourite colour?  
Melyn yw fy ffeffryn  
Yellow's my favourite?

Chris asks Jenny – “Pa un yw dy ffeffryn – Indian neu Chinese?” Which is your favourite – Indian or Chinese?

---

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 244

Brian's suffering from a hangover – he's been up all night discussing his life with Arwyn, who thinks he should try and calm down before he does something stupid. But Brian's determined that he's going to get his revenge on Jac...

### Geirfa

Trafferthu	to bother
Shafio	to shave
Clais	bruise
Ymladd	to fight
Twp	stupid
Pwyllo	to calm down
Cwrdd	to meet
Cyn-ŵr	ex-husband
Hunllef	nightmare
Llanast	mess
Dywediad	a saying
Dial	to take revenge

### Golygfa 1

Arwyn - Brian? Brian? Wyt ti i mewn yna?

Brian - Hanner munud...

Arwyn - Wyt ti'n iawn bore yma?

Brian - Ydw. Pam? Roeddwn i jest yn cael bath, reit?

Arwyn - Sori dy drafferthu ti...

Brian – Na, mae hi'n iawn. Mae'n hen bryd i mi fynd i'r gwaith a dweud y gwir...

Arwyn - Hei, beth sydd ar dy wyneb di?

Brian - Ar fy ngwyneb i?

Arwyn - Fan 'na...

Brian – Yn lle?

Arwyn - Ar dy foch di...Na, ddim yr ochr dde – yr ochr chwith...le, dyna ti...Fan yna...

Brian - O, yyyyy, wnes i dorri fy hun yn 'shafio'.

Arwyn - Mae e'n edrych yn gymwys fel clais i fi...

Brian - Ydy o?

Arwyn - Ydy, Brian...Clais yw e.

Brian - Dwn i ddim beth ydy o wir...

Arwyn - Dwyt ti ddim wedi bod yn ymladd wyt ti?

Brian - Hefo Jac?

Arwyn - Wyt ti?

Brian - Ddim eto.

Arwyn - Ddim eto? Ond mewn geiriau eraill rwyt ti am ymladd gyda fe rywbryd....

Brian - Wyt ti'n gweld bai arnaf fi?

Arwyn - Paid â gwneud dim byd twp...

Brian - Na. Ateb di fi, Arwyn. Fuasech chdi'n gweld bai arnaf fi taswn i'n hanner lladd Jac Whelan?

Arwyn - I beth, Brian?

Brian - Ateb fy nghwestiwn i...Fuasech chdi'n gweld bai arnaf i?

Arwyn - Beth yw'r pwynt cael fight gyda Jac? Mmm? Yn onest? Edrycha – dywedaist ti neithiwr...pan oedden ni'n cwpla'r botel brandi yna... taw'r cwbl oeddet ti moyn oedd Agnes yn ôl...

Brian - Do, dw i'n gwybod. Dyna'r cwbl dw i eisiau...

Arwyn - Wel..Beth yw'r pwynt hanner lladd Jac ynte? Ddim dyna'r ffordd i gael Agnes yn ôl.

Brian - Beth ddylwn i ei wneud ynte?

Arwyn - I ddechrau: pwyllo. lawn? Jest pwylla. Dylet ti feddwl yn hir cyn penderfynu gwneud dim byd o gwbl. Dyna fy nghyngor i i ti.

Brian - O.K. Diolch...

### Golygfa 2

Chris - ...sori, Jenny – rwyd ti'n meddwl fy mod i'n real keen machine dw i'n siwr...Ond dw i'n addo, wnaif i ddim dy ffonio ti eto... Roeddwn i jest yn ..yn yyyyy...yn becco fy mod i wedi dweud yr amser wrthyt ti...

Jenny - Wyth o'r gloch nos 'fory. Dyna wnest ti ddweud wrthyf fi wythnos diwethaf, wyt ti'n cofio?

Chris - Wyth o'r gloch nos 'fory. Aye.

Jenny - Dyna ni ynte. Wyth o'r gloch nos Fercher.

Chris – Dw i'n edrych ymlaen yn barod.

Jenny - Welaf i di nos 'fory...

Chris - Aye. Welaf i di ynte. Wyth o'r gloch nos 'fory.

Jenny - Hwyl...

Chris - Hwyl. Haia Brian. Roeddwn i jest ar y ffôn gyda Jenny.

Brian – Ar y ffôn?

Chris – Rydyn ni'n cwrdd nos 'fory.

Brian - Date?

Chris - Aye. Rydyn ni'n mynd mas i'r Light of Asia. Y lle Indian newydd ar y stryd fawr.

Brian - Gwranda, Chris...Dw i ddim eisiau dy glywed di'n gwneud galwadau preifat ar ffôn y garej...Oltreit?

Chris - Hi ffonodd fi.

Brian - lawn, felly. Ond os wyt ti'n ffonio Jenny – dylet ti wneud hynny ar dy ffôn dy hun OK?

Chris - Message received loud and clear, sir!

Brian - Dyna ni ynte. Felly, rydyn ni'n dau yn deall ein gilydd rwan.

Chris - Yyyy, no offence intended now, right? Ond, rwyd ti'n edrych yn really ofnadwy...

Brian - Dw i'n edrych yn ofnadwy achos dw i'n teimlo'n ofnadwy.

Chris - That'd explain it.

Brian - Gormod o frandi neithiwr.

Chris - Slippery slope, man.

Brian - Ddim ar fy mhen fy hun. Hefo Arwyn. Gŵr Jenny. Wel, cyn-ŵr Jenny...

Chris - Ie. Dywedaist ti wrthyf i o'r blaen. Arwyn Saunders.

Brian - Wnaeth Arwyn a fi ddechrau siarad...Rywt ti'n gwybod...Siarad am fy hunllef i...

Chris - Dy lanast di!

Brian - Dyna chdi. Fy llanast i. Llanast mawr fy mywyd i... Jac... Agnes... a beth dw i'n mynd i'w wneud...

Chris - So, beth wnaethoch chi benderfynu? Beth wyt ti'n mynd i'w wneud?

Brian - Mae yna ddywediad Saesneg yn does?

Chris - Dywediad? Saying?

Brian - Ie. Dywediad Saesneg am ddial...am ddial mewn gwaed oer...

Chris - Ah - revenge is best served cold...

Brian – Ie. Dyna chdi. A dyna beth dw i'n mynd i'w wneud.

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 245

Jenny and Chris go on their date – will it be a success?

Arwyn and Michelle discuss Brian at the Yacht Club. He's still on the warpath according to Arwyn despite his advice to him to calm down...

### Geirfa

Trafferthu	to bother
Shafio	to shave
Clais	bruise
Ymladd	to fight
Twp	stupid
Pwyllo	to calm down
Cwrdd	to meet
Cyn-wŵr	ex-husband
Hunllef	nightmare
Llanast	mess
Dywediad	a saying
Dial	to take revenge

### Golygfa 1

Michelle - Oi! Penny for your thoughts...Or should I say ceiniog i ti am dy...feddyliau?

Arwyn – Dw i'n meddwl am Brian.

Michelle - Yeah, well...Enough said...

Arwyn - Yn gymwys...

Michelle - What's the latest news from the crisis centre a.k.a. your house then?

Arwyn - Grim.

Michelle - Wyt ti wedi siarad gyda Jac o gwbl?

Arwyn - Na. Mae Jac yn byw yn nhŷ Agnes nawr.

Michelle - I haven't seen him here for weeks now. Not since he keeled over in here that time... How is his ulcer by the way?

Arwyn - Iawn, am wn i. Sa i'n gwybod...

Michelle - Drink arall?

Arwyn - Pam lai? G + T os gwelwch chi'n dda.

Michelle - A beth am Brian?

Arwyn - Brian? Beth?

Michelle - Well you said on Monday night that he was on the warpath...

Arwyn - Mae e'n dal ar y warpath. Mae fe'n grac. Yn grac iawn... iawn. Mae fe moyn lladd Jac. A sa i'n gweld bai arno fe. Ond dw i wedi dweud wrtho fe i bwyllo...

Michelle - Pwyllo? What does that mean?

Arwyn – Pwyllo? To calm down. Mae hi'n bwysig bod Brian yn pwyllo cyn iddo fe wneud rhywbeth twp...

### Golygfa 2

Chris - Popadom?

Jenny - Diolch...

Chris - Beth sydd?

Jenny – Beth wyt ti'n ei feddwl?

Chris – Rwyt ti on edge. Rwyt ti'n gwneud hyn bob munud...

Jenny - ...Gwneud beth? Edrych dros fy ysgwydd?

Chris - Ie. Yn gymwys. You're like...I dunno...Like...Peeping over your shoulder all the time...It's like your embarrassed to be seen with me or something...

Jenny - Paid â bod yn wirion! Dw i ddim yn embarrassed o gwbl! Pam wyt ti'n meddwl hynny?

Chris - I dunno. Wyt ti'n siwr nawr?

Jenny - Ydw. Dw i'n berffaith siwr. Efallai dy fod ti'n embarrassed i fod hefo fi...

Chris - Nagw. No way! Doeddwn i ddim...yyyy....doeddwn i ddim yn siwr...

Jenny - Yn siwr o beth?

Chris - Os oeddet ti'n more of an Indian woman neu'n more of a Chinese woman...

Jenny - Dw i'n leicio'r ddau. Does dim ots gen i.

Chris - Ond pa un yw dy ffefryn di?

Jenny - O, dwn i ddim. Y ddau...

Chris - But if you had to choose.

Jenny - O, Chris, fedraf i ddim dewis. Dw i'n leicio'r ddau!

Chris - Yeah, dw i'n gwybod. Rwy'ti'n leicio'r ddau...Rwy'ti'n leicio Chinese a rwy'ti'n hoffi Indians...Rwy'ti wedi dweud...rwy'ti wedi dweud hynny. Granted. That's fine. That's great. Ond os oedd rhaid dewis rhwng Chinese neu Indians...

Jenny - Beth am i ni siarad am rywbeth arall, ie?

Chris - Ok, just for argument's sake...Right?...Rwy'ti ar desert island...Ac ar yr – what's the word for island hefyd?

Jenny - Ynys.

Chris - O ie... ac ar yr ynys, reit...rhaid i ti ddewis jest un restaurant...Chinese neu Indians... So, c'mon. Dewis... Jenny, have I said something to offend you?

Jenny - Naddo.

Chris - Siwr?

Jenny - Siwr. Ydw, dw i'n siwr. Beth am ordro ein bwyd ni, ie?

Chris - Ie, cool...Dw i am gael Chicken Dansak a plain naan – fy ffefryn i...Beth am 'bytu ti?

Jenny - Yr un peth dw i'n meddwl.

Chris - Does dim rhaid i ti...Beth wyt ti'n ei gael fel arfer? Beth yw dy ffefryn di?

Jenny - Wel, pan oeddwn i'n briod...

Chris - Gydag Arwyn...

Jenny – Wyt ti'n adnabod Arwyn?

Chris - Nagw. Ond dw i wedi clywed amdano fo.

Jenny - Wrth gwrs. Gan Brian!

Chris - Wrong actually, gan Michelle. Wnaeth hi ddweud wrthyf fi am Arwyn...

Jenny - Michelle? Pwy ydy Michelle?

Chris - Michelle Tremain. Mae hi'n gweithio yn yr Yacht Club. I lawr yn y Marina. Fel barmaid...

Jenny - O - doeddwn i ddim yn deall dy fod ti'n yfed yn yr Yacht Club...Chris?

Chris - What?

Jenny - Wyt ti'n O.K.?

Chris - Ydw. Roeddwn i jest yn meddwl am rywbeth...

Jenny - Beth?

Chris - I might tell you one day...God, you're beautiful. You're the most beautiful women I've ever been out with.

Jenny - Hei! Dal dy ddŵr! Dim ond mynd am un pryd o fwyd ydyn ni!

Chris - But this is perfect, this is just so so perfect.

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 246

At the Yacht Club, Michelle reveals to Arwyn and Brian that she knows Chris rather better than most and thinks that Jenny should steer clear at all costs.

It doesn't look like Jenny will be seeing Chris again though, as she reveals to Arwyn when they bump each to each other at the supermarket...

### Geirfa

Go lew	not so good
Diweddaraf	latest
Pryd o fwyd	meal
Mynnu	to insist
Diflas	boring
Bradychu	to betray
Coelio	to believe
Diweddar	recent
Fan hyn	here
Cartref henoed	old people's home
Synnu	to be surprised
Dynes o'i hoed	a woman of her age

### Golygfa 1

Arwyn - Jenny?

Jenny - Arwyn...Dyma sypreis! Sut wyt ti?

Arwyn – Dw i newydd fod i weld mam...

Jenny - A sut mae hi?

Arwyn - Go lew. Doedd mam ddim yn edrych yn dda o gwbl.

Jenny - Mae'n ddrwg gen i glywed hynny.

Arwyn – Wyt ti wedi clywed y diweddaraf am Jac ac Agnes?

Jenny - Do. Mae'r ddau yn byw hefo'i gilydd rwan.

Arwyn - Ydyn. Ond smo Brian yn hapus iawn. Smo fe'n hapus o gwbl...

Jenny - Dw i'n gwybod. Mae Agnes wedi dweud wrthyf i.

Arwyn - Yap yap yap. Dyna'r cyfan dw i'n ei glywed bob nos. A beth yw hyn am 'bytu ti?

Jenny - Beth wyt ti wedi glywed amdanaf i?

Arwyn - Rhywbeth dywedodd Brian...

Jenny - Am yr hogyn Chris yma?

Arwyn - Dyna ti.

Jenny - Dwn i ddim beth wnaeth Brian ei ddweud...ond, dydy o'n ddim byd...Dw i wedi mynd am un pryd o fwyd hefo Chris...Dyna'r cwbl. A dim ond achos ei fod o wedi mynnu...

Arwyn - Mynnu? Beth wyt ti'n ei feddwl?

Jenny - Bod yn insistent. Rhy insistent a dweud y gwir. Ffonio bob munud – wyt ti'n gwybod... Ond roedd y noson allan efo fo mor ddiflas, dw i byth am fynd allan efo fo eto!

### Golygfa 2

Michelle - ...terrible thing to happen to anybody. Awful. I should know, I was badly dumped once...

Brian - Ie...Ie...Ond y pwynt ydy...Y pwynt ydy hyn, Michelle... Wnaeth dy ffrind gorau di ddim dy fradychu di, naddo...?

Michelle - Bradychu? You've lost me now!

Brian - Bradychu...to betray. Dyna beth mae Jac wedi ei wneud i fi wyt ti'n gweld...Mae Jac wedi fy mradychu fi...Rhedeg i ffwrdd hefo Agnes...Rhedeg i ffwrdd efo fy ngwraig i... tu ôl i fy nghefn i...Fedraf i jest ddim coelio bod hyn wedi digwydd...R'un peth eto...

Michelle - Plis...

Brian – Yr un peth eto, plis.... Wyt ti wedi bod yn briod erioed?

Michelle - Do. Unwaith.

Brian - A...beth ddigwyddodd?  
Michelle - It ended in tears. Blwyddyn yn ôl.  
Brian - Dim ond blwyddyn yn ôl? Eithaf diweddar ynte...  
Michelle - I wish I'd never set eyes on the creep in the first place now...  
Brian - Pam?  
Michelle - If I tell you, you won't remember tomorrow morning 'cause you're too zonked. So what's the point?  
Brian - Dw i'n cofio pob peth. Mae gen i gof fel eliffant...Jumbo. Dyna oedden nhw'n fy ngalw i yn yr ysgol ers talwm. Brian Jumbo...Neu Brian Dumbo hefyd...Cheek!  
Michelle - That'll be £2.30, please. Sorry, sorry – dwy bunt, trideg ceiniog os gweli di'n dda.  
Brian – Reit. Ac...yyyy...pryna un dy hun...  
Michelle - Ta. I will. Many thanks...Oh, Arwyn!  
Brian - Arwyn? Lle?  
Arwyn - Fan hyn, Brian...Dw i newydd gyrraedd.  
Brian – Beth wyt ti eisiau?  
Arwyn - Yr un peth ag arfer, Michelle – os gwelwch chi'n dda.  
Brian - Lle wyt ti wedi bod trwy'r prynhawn?  
Arwyn - Yn ymweld â mam yn y cartref henoed. A wedyn es i draw i'r archfarchnad. A wnes i weld Jenny...  
Brian - Wnaeth hi ddweud rhywbeth am Chris?  
Michelle - Chris? Chris Roberts?  
Arwyn - Ie. Dyna ti. Pam wyt ti'n holi?  
Michelle - What was your ex doing with him, Arwyn?  
Brian - Mae'r ddau yn gweld ei gilydd.  
Arwyn - Emm, un date, meddai hi, Brian. Ond ddim mwy. Noson ddiflas ofnadwy yn ôl Jenny.  
Michelle - So she won't be seeing him again, I take it?  
Arwyn - Sa i'n credu hynny...Na!  
Brian - Pam wyt ti'n dangos gymaint o ddiddordeb Michelle?  
Michelle - Dw i'n adnabod Chris...  
Arwyn - Boring oedd y Christopher yma, yn ôl Jenny.  
Brian - Ac yn rhy ifanc iddi hi. Neu dyna fuaswn i'n ei ddweud. Dw i'n synnu... Dynes o'i hoed hi yn mynd allan hefo boi fel fo...  
Arwyn - Wel wnaeth e fynnu mynd allan yn ôl Jenny.  
Michelle - Mynnu?  
Brian - Ie. Insist...Dyna beth ydy mynnu.  
Michelle - Warn her. Tell her to keep clear of Chris.  
Brian - Paid â siarad yn wirion! Dydy o ddim yn fusnes i neb ond Chris a Jenny...  
Michelle - Ydy, mae e. Mae e'n fusnes i bawb.  
Arwyn - Are you holding something back from us, Michelle?  
Michelle - Yeah. If you really want to know...I was daft enough to marry that little creep. For all of six months. And then, I had to run away...I just couldn't take it any more...  
Brian - Methu cymryd dim mwy? Pam?  
Michelle - I won't tell you. But just warn her to keep clear. Keep well away from him. That's all. O.K.?

## Synopsis

Brian is still as angry as ever and is taking his aggression out on everyone, despite Arwyn's advice to him to calm down. He wants revenge, or at least that's what he tells Chris.

## Test yourself

- Which of the following does **not** mean 'to be exhausted'?
  - blino'n lân
  - ymladd**
  - ymládd
- 'He's just popped out' can be translated as:
  - Mae o wedi jest picio allan
  - Mae o wedi picio jest allan
  - Mae o jest wedi picio allan**
- What is the correct translation of 'my favourite meal' in Welsh?
  - fy hoff bryd**
  - fy ffefryn pryd
  - fy mhryd yw'r ffefryn
- Which of the following does **not** mean 'to fight'?
  - ymladd
  - cwffio
  - ymládd**
- What's the word for 'to insist'?
  - mynnu**
  - menyn
  - mynydd
- To translate the expression 'hold your horses' into Welsh, we would say:
  - dal dy geffylau
  - dal dy ddŵr**
  - dal i fynd